Agenda – Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 5 – Tŷ Hywel

Dyddiad: Dydd Mercher, 15 Mai 2019

Amser: 09.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

Claire Morris

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6355

SeneddIechyd@cynulliad.cymru

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.00)

2 Papurau i'w nodi

(09.00-09.05)

2.1 Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch Arolygiaeth Iechyd Cymru

(Tudalennau 1 – 3)

2.2 Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru

(Tudalennau 4 – 5)

2.3 Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016

(Tudalennau 6 – 7)

2.4 Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch gwasanaethau awtistiaeth yng Nghymru

(Tudalennau 8 – 9)

2.5 Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch strategaeth unigedd ac ynysu cymdeithasol ar gyfer Cymru

(Tudalennau 10 – 11)

2.6 Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch Rhestr Cyflawnwyr Meddygol Cymru Gyfan

(Tudalennau 12 – 14)

2.7 Llythyr gan Lywodraeth Cymru ynghylch gwasanaethau nyrsio cymunedol ac ardal

(Tudalennau 15 - 17)

2.8 Llythyr gan Athrofa Llythrennedd Corfforol Cymru ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ynghylch yr adroddiad 'Gweithgarwch corfforol ymhlith plant a phobl ifanc'

(Tudalennau 18 - 19)

3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn

(09.05)

4 Deintyddiaeth yng Nghymru: Trafod yr adroddiad drafft (2)

(09.05-09.15) (Tudalennau 20 - 66)

Papur 9 – Deintyddiaeth yng Nghymru: Adroddiad drafft

5 Ymchwiliad i weithgarwch corfforol ymhlith plant a phobl ifanc: Trafod ymateb Llywodraeth Cymru

(09.15-09.30) (Tudalennau 67 - 83)

Papur 10 – Ymchwiliad i weithgarwch corfforol ymhlith plant a phobl ifanc – Ymateb Llywodraeth Cymru

Briff Ymchwil

Darparu iechyd a gofal cymdeithasol ar yr ystâd carchardai i oedolion: Ymweliad â Charchar EM Caerdydd

Vaughan Gething AC/AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/P/VG/1122/19

Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd
CF99 1NA

3 Ebrill 2019

Annwyl Dai,

Diolch ichi am eich llythyr 7 Mawrth yn rhoi manylion materion pellach a godwyd gan y Pwyllgor yn dilyn y sesiwn dystiolaeth a gynhaliwyd ar 14 Chwefror gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC).

Pwerau ac Annibyniaeth AGIC

Yn dilyn argymhellion adolygiad Marks ymgynghorwyd ar nifer o faterion, gan gynnwys annibyniaeth ac integreiddio AGIC ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) mewn Papur Gwyn: *Gwasanaethau sy'n Addas i'r Dyfodol* ym mis Mehefin 2017. Er hynny, bryd hynny nid oedd cefnogaeth gref i newid y model presennol yn enwedig gan fod AGIC, ynghyd â AGC yn gweithredu yn annibynnol ar ei gilydd. Mae pwerau presennol AGIC yn caniatáu iddynt nodi ble mae gwasanaethau'n methu o bosibl, i adrodd yn gyhoeddus am hyn ac i uwchgyfeirio at y byrddau iechyd a Llywodraeth Cymru lle y maent yn credu bod angen gweithredu. Rwyf yn ymwybodol bod AGIC yn ystyried a allai statws neu iaith fwy ffurfiol fod yn ddefnyddiol er mwyn cyfathrebu mewn ffordd fwy amserol a thryloyw lle bo gwasanaethau sy'n destun pryder. Rwyf yn derbyn bod angen adolygu a diogelu'r fframwaith deddfwriaethol presennol y mae AGIC yn gweithio o'i fewn at y dyfodol er mwyn sicrhau nad oes unrhyw fylchau rheoleiddio a bod ganddynt y pwerau angenrheidiol i gyflawni eu swyddogaethau'n effeithiol. Yn wir, mae'r Prif Weinidog wedi cadarnhau'r angen i gyflwyno Bil yn y dyfodol i fynd i'r afael â hyn.

I helpu i ddelio â rhai o'r heriau a wynebir gan AGIC i weithredu yn effeithlon ac yn effeithiol ac mewn ffordd fwy integredig yn unol â dyheadau 'Cymru Iachach', rwyf wedi darparu adnoddau ychwanegol yn ddiweddar i helpu i feithrin eu capasiti a'u gallu ac i wneud y swyddogaeth yn fwy cynaliadwy. Bydd fy swyddogion yn adolygu'r mater yn rheolaidd ac yn parhau i ymchwilio gydag AGIC i'r cymhlethdodau a'r diffygion sy'n gysylltiedig â'u fframwaith deddfwriaethol presennol a'r camau gweithredu y mae eu hangen i'w ddiogelu at y dyfodol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed: Darpariaeth i gleifion mewnol

Mae gwelyau yn y GIG i gleifion mewnol yn y De a'r Gogledd. Darperir y rhain gan Wasanaethau'r Glasoed Gogledd Cymru (NWAS), Abergele a Tŷ Llidiard, Pen-y-bont ar Ogwr yn eu trefn. Os oes gan glaf anghenion arbenigol iawn, megis anabledd dysgu neu anabledd corfforol neu os oes arno angen llety diogel, mae'n cael ei leoli y tu allan i Gymru trwy fframwaith CAHMS Cymru sy'n dethol darparwyr yn ôl ansawdd, cost a lleoliad. Defnyddir y fframwaith hefyd i ddod o hyd i welyau os nad oes capasiti ymhlith darparwyr yn GIG Cymru.

Mae darparwyr y Fframwaith yn cael eu monitro drwy'r Gwasanaeth Sicrwydd Ansawdd a Gwella (QAIS) sy'n archwilio safleoedd ac yn monitro perfformiad. Mae pob claf y mae arno angen gwely CAMHS cleifion mewnol haen 4, ni waeth a yw'n derbyn gofal gan un o ddarparwyr GIG Cymru neu ddarparwr y Fframwaith yn ddarostyngedig i ran 2 o'r Mesur Iechyd Meddwl ac fe fydd ganddo gydgysylltydd bwrdd iechyd/awdurdod lleol sy'n gyfrifol am gytuno ac adolygu cynlluniau gofal a thriniaeth unigol.

Mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC) yn cael ffurflenni monitro misol rheolaidd oddi wrth ddwy uned GIG Cymru yn nodi'r defnydd o welyau, gan gynnwys nifer y cleifion sy'n cael eu derbyn, eu rhyddhau a nifer y cleifion sydd ar absenoldeb cartref. Mae WHSSC hefyd yn cael cyfarfodydd contract a pherfformiad â'r byrddau iechyd ac mae'r ddwy uned yn cael eu hystyried yn y cyfarfodydd ehangach hynny.

Adroddir ar faterion sy'n ymwneud ag ansawdd trwy systemau safonol y byrddau iechyd ac maent yn cael eu dilyn i fyny gan dîm ansawdd WHSSC a'u hadrodd trwy Bwyllgor Diogelwch Cleifion WHSSC fel y bo'n briodol. Yn ogystal, mae WHSSC wedi cytuno ar Gytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer monitro blynyddol arferol ar ddarparwyr yn GIG Cymru gan QAIS sy'n rheoli'r Fframwaith. Mae hyn bellach yn sicrhau cysondeb rhwng y safonau ansawdd a ddisgwylir gan ddarparwyr GIG Cymru a'r Fframwaith. Yn ogystal mae'r ddwy uned yn cael eu rheoli ar hyn o bryd trwy broses uwchgyfeirio ansawdd WHSSC ac maent felly'n destun ymweliadau ansawdd rheolaidd.

Ar hyn o bryd mae WHSSC yn comisiynu 12 o welyau gan NWAS, Er hynny bu'r gwasanaeth yn gweithredu gyda llai o welyau, sef 10 o welyau dros gyfnod estynedig o amser. Mae hyn oherwydd heriau sylweddol yn y gweithlu ac anghenion cleifion sy'n dod yn fwyfwy cymhleth. Mae WHSSC yn cydweithio'n agos ag NWAS trwy ei broses uwchgyfeirio ansawdd i ddychwelyd i'r capasiti a gomisiynwyd sef 12 o welyau. Caiff amseriad dychwelyd yn barhaol i 12 o welyau ei bennu gan asesiadau risg clinigol. At ei gilydd, cafwyd gwelliant nodedig mewn perfformiad yn NWAS yn ystod 2018/19 pan oedd cynnydd, ar rai adegau yn ystod y flwyddyn, i'r 12 o welyau llawn. Er hynny, mae hyn yn parhau i amrywio oherwydd aciwtedd cleifion a lefelau staffio.

Mae gwasanaeth Tŷ Llidiard yn gweithredu yn unol â'r capasiti a gomisiynwyd. Er hynny ers Mawrth 2018 mae'r meini prawf derbyn wedi cael eu tynhau mewn ymateb i asesiad risg o'r amgylchedd ffisegol. Bydd y gwasanaeth yn parhau i weithredu'r meini prawf derbyn o fewn y polisi presennol nes i'r gwaith adfer ar yr adeilad gael eu cwblhau. Mae'r newid i ffin Pen-y-bont ar Ogwr wedi effeithio ar Tŷ Llidiard, felly, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ymdriniodd â'r gwaith adeiladu yn ystod 2018/19. Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf fydd yn cynnal cam 2 o fewn y 6 mis nesaf.

Mae'r materion a ddisgrifir uchod wedi arwain at leoli nifer bach o gleifion (6 yn y flwyddyn ddiwethaf) y tu allan i'r ardal lle y byddent wedi gallu cael gafael ar wasanaethau'r GIG yng Nghymru gynt.

Adolygiad o Wasanaethau Mamolaeth

Yn dilyn ymchwiliadau i Wasanaethau Mamolaeth yn Morecambe Bay NHS Foundation Trust, argymhellodd yr Ombwdsmon Seneddol ac Iechyd (PHSO 2014) yn Lloegr y dylai'r gwaith o oruchwylio a rheoleiddio bydwreigiaeth gael ei wahanu ac mai'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) ddylai reoli gweithgarwch rheoleiddio yn uniongyrchol. O ganlyniad cafodd goruchwylio statudol ar gyfer bydwreigiaeth ei ddileu ac fe gafodd y model a arweinir gan y cyflogwr i Gymru ei lansio yn Ebrill 2017. Roedd y model yn ymgorffori nifer o egwyddorion bras a oedd yn cynnwys strwythurau llywodraethu clir ar gyfer cyfrifoldeb ac atebolrwydd, yn ogystal â dangosyddion perfformiad allweddol sy'n dal byrddau iechyd i gyfrif gan Lywodraeth Cymru ar gyfer darparu goruchwylio clinigol ar gyfer bydwragedd.

Mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl i'r GIG yng Nghymru fynd ati i ddarparu gwasanaethau mamolaeth sy'n rhoi lle canolog i anghenion y fam a'r teulu fel bod beichiogrwydd a genedigaeth yn brofiad diogel a chadarnhaol lle mae menywod yn cael eu trin ag urddas a pharch. Mae'r model goruchwylio hwn yn seiliedig ar yr ethos o gefnogi bydwragedd i gefnogi menywod, ac mae'n darparu trefniadau i sicrhau dysgu sefydliadol yn hytrach na bod yn rhan o swyddogaeth genedlaethol ar gyfer arolygu neu sicrwydd. Hyd yn hyn mae'r model wedi cael ei groesawu ac mae cysylltiadau â'r timau llywodraethiant ar lefel leol i sicrhau dysgu a gwella tra'n aros ar wahân i swyddogaeth rheoleiddio'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

Mewn ymateb i nifer o ddigwyddiadau difrifol a nodwyd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf lle bu achosion o ganlyniadau gwael i famau a babanod, aeth Llywodraeth Cymru ati i graffu ar y llywodraethiant ac ansawdd a diogelwch y gofal a oedd yn cael ei ddarparu. Cymerwyd camau gweithredu ar unwaith ac fe gafodd adolygiad allanol o wasanaethau bydwreigiaeth ei gynnal gan Goleg Brenhinol y Gynaecolegwyr. Cafodd canfyddiadau'r adolygiad a'r camau gweithredu y mae eu hangen ar fyrder eu cynnwys yn fy Natganiad Ysgrifenedig i Aelodau'r Cynulliad ym mis Ionawr. Disgwylir i'r adroddiad terfynol gael ei gyhoeddi y mis hwn ac rwyf yn rhag-weld y gallai hyn nodi dysgu pellach i'r bwrdd iechyd a gwasanaethau mamolaeth yn fwy cyffredinol. Mae AGIC wedi dweud wrthyf hefyd eu bod yn bwriadu cynnal adolygiad thematig o wasanaethau mamolaeth yng Nghymru yn y flwyddyn i ddod.

Cyfathrebu ag Aelodau'r Cynulliad

Nodaf eich sylwadau ynghylch cyhoeddi adroddiad Kris Wade gan AGIC ond gan eu bod yn gweithredu yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru mater iddynt hwy yw hyn. Er hynny, rwyf wedi gofyn i AGIC am ymateb i'r mater hwn ac maent wedi darparu'r canlynol: "We have procedures in place which govern the publication of our reports and we aim to publish each of our reports in a consistent manner. This is to try and ensure our reports are seen as objective and independent; that reporting of our findings is accurate and sensitive; and that decisions regarding timing and handling are not regarded as being inappropriately influenced by political considerations. We are looking carefully at our procedures to consider whether there is a need for change for all reports, or potentially for a specific class of report".

Gobeithio y bydd hyn o gymorth ichi.

Yn gywir,

Vaughan Gething AC/AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Eitem 2.2

Julie Morgan AC/AM
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Health and Social Services

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref MA-P/JM/0329/19

Dr Dai Lloyd, AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

4 Ebrill 2019

Annwyl Dai

Ar 14 Chwefror, wrth roi tystiolaeth i Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 a'i heffaith ar ofalwyr, dywedais y byddwn yn ymateb ichi ynghylch y pwyntiau a godwyd am System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS). Gallaf roi'r wybodaeth a ganlyn ichi erbyn hyn.

Mae 'Cymru Iachach' yn ailddatgan ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflwyno WCCIS ar draws Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru. Bydd y system hon yn darparu ar gyfer y gwasanaeth di-dor a ragwelir yn ein cynllun ar y cyd. Fel rhaglen genedlaethol eang, mae'n cael ei chyflwyno'n raddol ac mae 13 o sefydliadau eisoes yn ei gweithredu ac mae mwy nag 11,000 o ddefnyddwyr.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda phartneriaid i sicrhau manteision effeithiol. Ar gyfer y sefydliadau sydd wedi llofnodi gorchmynion adleoli, y dyddiad hwyrach ar gyfer mynd yn fyw yw Ionawr 2021. Byddwn yn parhau i gwrso'r sefydliadau nad ydynt wedi llofnodi gorchmynion adleoli eto. Rydym wedi ei gwneud yn eglur iawn mai hon yw'r system y disgwylir ei defnyddio ledled Cymru drwy'r caffael cenedlaethol. Tra bydd angen i awdurdodau lleol wneud eu penderfyniadau unigol eu hunain, mae'n ofynnol i'r GIG ddefnyddio'r system hon. Mae Byrddau Iechyd yn sicrhau asesiad ac achosion lleol mewn ffordd briodol, yn enwedig mewn cysylltiad â'r newid busnes y mae'r system yn ei olygu. Byddwn yn adolygu ac yn cysoni opsiynau ariannu ar gyfer systemau digidol er mwyn cyflawni'r amcan "Cymru Iachach" allweddol hwn.

Lle y mae WCCIS wedi'i gweithredu, mae manteision wedi'u cofnodi ar unwaith. Mae ymarferwyr y rheng flaen, yn benodol, wedi bod yn gadarnhaol ynghylch pa mor hawdd yw defnyddio'r system a'r ffaith ei bod yn haws cael hyd i wybodaeth. Mae amser teithio staff hefyd wedi'i leihau, sy'n golygu bod mwy o amser yn cael ei dreulio gyda chleientiaid a chleifion. Wrth ei gwraidd y mae'r ymrwymiad i sicrhau bod data a gwybodaeth yn gyson ar draws y rhyngwyneb iechyd a gofal cymdeithasol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn ‘Cymru Iachach’, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyflwyno WCCIS yn gyflymach, fel bod modd gwireddu'r manteision hyn yn llawn ledled y wlad.

Yn gywir

Julie Morgan AC/AM
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Health and Social Services

Eitem 2.3

Vaughan Gething AC/AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-P/VG/1255/19

Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

8 Ebrill 2019

Annwyl Dai,

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 25 Mawrth lle gwnaethoch ofyn cwestiwn ynglŷn â Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016.

Rwy'n ymwybodol o'r pryderon a godwyd yn ystod cyfnod 1 ym mhroses y Bil, ynglŷn â'r posibilrwydd y gallai byrddau iechyd sicrhau cydymffurfedd â'r lefelau staffio nyrsio a gyfrifwyd drwy symud staff yn amhriodol o leoliadau eraill, ac y gallai hynny gael effaith negyddol ar ofal y cleifion yn y lleoliadau hynny.

O ganlyniad i'r drafodaeth hon yn ystod y broses graffu, cynhwyswyd adran 25A yn y Ddeddf sy'n rhoi dyletswydd ar fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau i *"ystyried pwysigrwydd darparu digon o nyrsys i roi amser i'r nyrsys ofalu am y cleifion mewn modd sensitif".* Mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol i unrhyw leoliad lle darperir gofal nyrsio a hefyd lle bydd gofal nyrsio yn cael ei gomisiynu. Pwrpas yr adran hon yw sicrhau na fydd staff nyrsio yn cael eu symud o ward er anfantais i gleifion ar y ward honno, dim ond er mwyn sicrhau bod ward feddygol acíwt i oedolion neu ward cleifion llawfeddygol mewnol yn bodloni eu lefelau staffio. Y rheswm dros ei gynnwys yn adran gyntaf y Ddeddf, yn rhannol, oedd i gyfleu ei natur drosfwaol.

Mae gan fyrddau iechyd ddyletswydd i reoli'r risgiau i gleifion yn y gwasanaethau y maent yn eu darparu, gan sicrhau nad yw'r risgiau yn dod yn annioddefol mewn unrhyw un maes. Weithiau, bydd hyn yn golygu symud staff nyrsio o un rhan o'r bwrdd iechyd i ran arall.

Weithiau bydd nyrsys yn cael eu symud o un ward i ward arall i gefnogi anghenion/galw pwysau uchel. Nid yw hyn yn newydd i Gymru, nac yn unigryw i Gymru. Bydd sefydlu dull cyfreithiol, systematig, i sicrhau y rhoddir ystyriaeth i ofal cleifion ym mhob lleoliad, a safoni prosesau cynllunio staff nyrsio mewn wardiau meddygol a llawfeddygol yn helpu i sicrhau bod y symudiadau mor drefnus â phosibl, ac nad yw er anfantais i gleifion ar wardiau eraill.

Y byrddau iechyd sy'n gyfrifol am sicrhau cydymffurfedd ag adran 25A, ac mae'r templedi ar gyfer adroddiadau blynyddol mewnol y byrddau a'r adroddiadau tair blynedd i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru yn cynnwys adran ar gyfer mynegi'r prosesau i ddiwallu'r ddyletswydd honno.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Oherwydd y bydd yr adroddiadau byrddau iechyd mewnol cyntaf yn cael eu cyflwyno ger eu bron yng nghyfarfodydd bwrdd mis Mai, mae'r Prif Swyddog Nyrsio wedi trafod gyda'r Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio i drefnu ei bod yn cael trosolwg cryno o'r naratif yn yr adroddiadau hynny. Mae pob bwrdd iechyd wedi rhoi sicrwydd bod ganddynt brosesau ar waith i sicrhau cydymffurfedd ag adran 25A y ddeddf ac nad yw staff nyrsio yn cael eu symud yn amhriodol i wardiau meddygol a llawfeddygol o wardiau nad ydynt yn berthnasol i adrannau 25B ac C. Mae'r prosesau hyn yn cynnwys: sefydlu trafodaethau dyddiol i ystyried y galw ar staffio a gan gleifion yn y gwasanaeth a pholisïau uwchgyfeirio (sy'n fwy cadarn ers rhoi'r Ddeddf ar waith); defnyddio'r dull cyfrifo trionglog ym mhob maes, er nad yw'r Ddeddf yn galw yn benodol am hynny; a phrosesau cadarn a thryloyw ar gyfer symud staff, gydag uwch-nyrs yn goruchwylio.

Gobeithio y bydd yr ateb hwn o gymorth ichi.

Yn gywir

Vaughan Gething AC/AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Eitem 2.4

Vaughan Gething AC/AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/P/VG/1289/19

Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

10 Ebrill 2019

Annwyl Dai,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 25 Mawrth ynglŷn â diwygio darpariaeth awtistiaeth a'ch gwahoddiad i'r Pwyllgor yn yr haf. Byddai'n bleser mawr gennyf dderbyn y gwahoddiad hwnnw.

Cyhoeddwyd adroddiad llawn y gwerthusiad annibynnol o'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig ar 1 Ebrill. Yna, dyroddwyd Datganiad Ysgrifenedig ar 3 Ebrill, sy'n rhoi trosolwg o ganlyniadau'r gwerthusiad a'n camau nesaf. Mae hefyd yn esbonio'r gwaith ymchwil pellach sy'n cael ei wneud ar y rhwystrau i wella amseroedd aros am ddiagnosis a chysondeb rhwng gwasanaethau niwroddatblygiadol plant a'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig. Cwblhawyd yr ymchwil hon yn ystod mis Mawrth, ac rydym yn disgwyl y bydd yr adroddiad ar gael erbyn mis Mehefin. Ymhellach, byddaf yn parhau i fonitro'r gwelliant a wneir o ran gweithredu gwasanaethau i bobl awtistig. Mae gwerthusiad annibynnol dwy flynedd pellach yn yr arfaeth, a dylai'r contract ar gyfer y gwaith hwn fod wedi'i neilltuo erbyn yr haf.

Fel y byddwch yn ymwybodol, cychwynnais ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch ein cynigion ar gyfer y Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth, a gaeodd ar 1 Mawrth. Cafwyd 60 o ymatebion. Yn ystod y broses ymgynghori tri mis, ymgysylltodd fy swyddogion ag ystod o randdeiliaid gan gynnwys drwy bedwar digwyddiad ymgynghori mawr i randdeiliaid yn Llandrindod, Abertawe, Llandudno a Chaerdydd. Cafwyd presenoldeb da yn y digwyddiadau hyn ac adborth gwerthfawr o ganlyniad iddynt a gaiff ei ddefnyddio i ddatblygu'r cod. Cyhoeddir crynodeb o'r adborth ymgynghori erbyn mis Mehefin ac mae fy swyddogion yn sefydlu grwpiau technegol i roi cyngor arbenigol ar ddatblygu'r cod. Rydym yn bwriadu cyhoeddi'r cod ymarfer drafft ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus erbyn mis Rhagfyr eleni.

Mae'n bleser gennyf hefyd gadarnhau bod y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yn weithredol ym mhob rhan o Gymru erbyn hyn. Rwy'n cydnabod bod y gwasanaeth wedi'i sefydlu'n well mewn rhai rhanbarthau nag eraill gan ei fod yn cael ei gyflwyno'n raddol. Byddwn yn parhau i sefydlu a gwella'r gwasanaeth dros y ddwy flynedd nesaf.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddaf yn cyhoeddi'r ail adroddiad blynyddol ar weithredu'r strategaeth awtistiaeth erbyn mis Mehefin. Ar ôl ei gyhoeddi, croesawaf y cyfle i drafod y canlyniadau a gyflawnwyd dros y flwyddyn weithredol ddiwethaf ac i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau gweithredu yn y dyfodol.

Yn gywir,

Vaughan Gething AC/AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Eitem 2.5

Julie Morgan AC/AM
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Health and Social Services

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA-P/JM/1564/19

Dai Lloyd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Dai.Lloyd@cynulliad.cymru
SeneddHealth@Assembly.Wales

25 Ebrill 2019

Annwyl Dai

Gan fod dros flwyddyn wedi mynd heibio ers cyhoeddi adroddiad gwerthfawr y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol, roeddwn am roi'r newyddion diweddaraf i'r pwyllgor ynghylch y cynnydd y mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud hyd yn hyn o ran mynd i'r afael â'r materion pwysig hyn.

Rydym yn dal wedi ymrwymo i ddatblygu strategaeth draws-lywodraethol a fydd yn cynnwys pawb o bob oed; ac felly ymhlith eraill, yn cynnwys plant a phobl ifanc sy'n teimlo'n unig neu wedi eu hynysu oherwydd cael eu bwlio yn yr ysgol, a phobl hŷn wrth iddynt symud o'u cartrefi i mewn i ofal preswyl.

Fel y gwyddoch, ym mis Hydref y llynedd, lansiwyd y ddogfen ymgynghori Cysylltu Cymunedau. Cafwyd ymateb brwd iawn i'r ddogfen a'r pedwar digwyddiad ymgynghori cyhoeddus a gynhaliwyd gennym, gyda llawer o sylwadau ar amryw o faterion, ac enghreifftiau o ymyriadau llwyddiannus. Mae'n siŵr y bydd aelodau'r pwyllgor eisoes yn gyfarwydd â rhai o'r prif negeseuon a godwyd: pwysigrwydd lleihau'r stigma, mynediad gwell at wybodaeth, a'r angen i ddatblygu a chefnogi atebion lleol a chadernid cymunedol.

Ar 29 Mawrth, cyhoeddais Ddatganiad Ysgrifenedig yn tynnu sylw at rai o brif negeseuon yr ymatebion i'r ymgynghoriad, a datganiad am y camau nesaf yr ydym yn bwriadu eu cymryd:

https://gov.wales/written-statement-connected-communities-outcome-loneliness-and-social-isolation-consultation

https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-cysylltu-cymunedau-canlyniad-yr-ymgynghoriad-unigrwydd-ac-ynysigrwydd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r Datganiad Ysgrifenedig yn cynnwys dolen at yr adroddiad cryno ar yr ymgynghoriad llawn.

Er mwyn helpu i ddatblygu'r strategaeth, mae fy swyddogion yn parhau i ymgysylltu â chydweithwyr ar draws Llywodraeth Cymru, cydweithwyr yn Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth y DU, a rhanddeiliaid allanol, ac yn parhau hefyd i ymweld â phrosiectau sy'n gweithio i gael gwared ar unigrwydd ac ynysigrwydd.

Yn unol ag argymhellion y pwyllgor, rydym wedi comisiynu dau ddarn o ymchwil:

- Adolygiad o sut y gallai unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol effeithio ar iechyd a llesiant a chynyddu'r defnydd o wasanaethau.

- Adolygiad o ymwneud y cenedlaethau â'i gilydd, unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol.

Bydd casgliadau'r ymchwil hon yn cael eu cyhoeddi maes o law.

Yn ystod y misoedd nesaf, byddwn yn parhau i weithio ar draws y llywodraeth, ac i ymgysylltu â phartneriaid allanol er mwyn datblygu strategaeth derfynol i'w chyhoeddi yn yr hydref a chodi ymwybyddiaeth a lleihau'r stigma drwy gynnal sgwrs/ymgyrch genedlaethol.

Yn gywir

Julie Morgan AC/AM
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Health and Social Services

Eitem 2.6

Vaughan Gething AC/AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-P-VG-1352-19

Dr Dai Lloyd
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

25 Ebrill 2019

Annwyl Dai,

Diolch ichi am eich llythyr 25 Mawrth mewn ymateb i'm llythyr innau atoch dyddiedig 19 Chwefror ynghylch Rhestr Cyflawnwyr Meddygol Cymru Gyfan.

I gadarnhau, cynigir ychydig o ddiwygiadau i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestri Cyflawnwyr) (Cymru) 2004 ("Rheoliadau 2004").

Ailneilltuo cyflawnwyr

Fel y mae Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 ar hyn o bryd, mae angen i gyflawnwyr fod ar restr un Bwrdd Iechyd Lleol (BILl) yn unig i weithio yn ardal unrhyw BILl yng Nghymru. Mae cyflawnwyr yn cael eu dileu o restr cyflawnwyr BILl os nad ydynt wedi gweithio yn ardal BILl ers 12 mis. Byddai angen i'r cyflawnydd wedyn ymgeisio i ardal y BILl y maent yn gweithio ynddi.

Cydnabyddir bod y gofyniad am gais newydd pan fydd ceisydd yn symud o ardal un BILl i ardal arall yn cynyddu'r baich gweinyddol ar gyflawnwyr. Byddwn felly'n mynd ar drywydd y posibilrwydd o ddarparu system o drosglwyddo neu ail-neilltuo lle bo cyflawnydd yn symud i BILl newydd, yn ddarostyngedig i fesurau diogelwch priodol, i gadw beichiau ac oedi i'r lleiaf. Caiff y manylion eu hystyried ymhellach.

Darparu tystlythyrau, profiad a chymwysterau proffesiynol

Diwygiais Reoliadau 2004 yn wreiddiol i symleiddio'r broses ymgeisio ac i leihau'r baich gweinyddol i'r cyflawnwyr sydd eisoes ar restr cyflawnwyr rywle arall yn y DU sy'n dymuno gwneud cais i gael eu cynnwys yn Rhestr Cyflawnwyr Cymru. Diben hyn oedd caniatáu i ymgeiswyr gydsynio i'r BILl gael gafael ar dystlythyrau clinigol blaenorol, profiad a chymwysterau proffesiynol gan y Sefydliad Gofal Sylfaenol (PCO) lle y rhestrir y cyflawnydd ar hyn o bryd. Er hynny, mewn ymateb i'r ymgynghoriad, ymddengys fod oedi wedi digwydd yn achos rhai ymgeiswyr gan i GIG Lloegr gyflwyno'r wybodaeth i Bartneriaeth

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cydwasanaethau GIG Cymru ac yn credu y byddai darparu rhywfaint o'r wybodaeth eu hunain yn lleihau oedi.

Rwyf yn cynnig, felly, ddiwygio Rheoliadau 2004 i ganiatáu i gyflawnydd presennol i ddarparu naill ai (i) enwau a chyfeiriadau dau ganolwr clinigol a phrofiad proffesiynol a chymwysterau meddygol neu ddeintyddol wedi'u diweddaru; neu (ii) eu cydsyniad i'r BILl cael gafael ar dystlythyrau clinigol blaenorol, profiad a chymwysterau proffesiynol gan y PCO lle y rhestrir y cyflawnydd ar hyn o bryd. Fel arall gallai'r ymgeisydd darparu (i) a (ii).

Diwygiadau Amrywiol i Reoliadau 2004

Yn ogystal â'r diwygiadau arfaethedig uchod, rydym yn ystyried gwneud Diwygiadau Amrywiol eraill i Reoliadau 2004 i helpu i leihau'r fiwrocratiaeth yn y trefniadau presennol.

Opsiwn 3 - diwygio'r rheoliadau presennol i ganiatáu i gyflawnydd Ymarferydd Cyffredinol neu Ymarferydd Deintyddol Cyffredinol gael ei restru'n awtomatig ar restr BILl os yw eisoes ar restr cyflawnwyr PCO, heb unrhyw ofyniad i gyflwyno cais neu ddarparu gwybodaeth a dogfennaeth briodol.

Cafodd yr opsiwn hwn y gefnogaeth fwyaf. Er hynny, dylid nodi bod nifer o'r ymatebion a gyflwynwyd o blaid opsiwn 3 o Ogledd Cymru yr un peth â'i gilydd ac ni roddwyd unrhyw sylwadau/tystiolaeth ynghylch pam Opsiwn 3 oedd yr opsiwn a oedd yn cael ei ffafrio.

Er hynny, o gofio nifer yr ymatebion o blaid Opsiwn 3, fe wnaeth fy swyddogion drafod yr opsiwn hwn gyda Byrddau Iechyd Lleol yn un o'u cyfarfodydd rheolaidd. Cadarnhaodd y cynrychiolwyr o'r BILl na fyddent yn cefnogi opsiwn 3 o safbwynt llywodraethiant.

Mae opsiwn 3 yn peri risg i ddiogelwch claf gan na fyddai modd cadw cydbwysedd yng Nghymru o ran y Cyflawnydd. Er enghraifft, er y byddai'r Cyflawnydd yn cael ei gynnwys ar restr PCO yn Lloegr, gallai'r Cyflawnydd hwnnw fod yn destun ymchwiliad, cael amodau wedi'u gorfodi ar eu cynnwys yn y rhestr PCO, bod yn gweithio o dan oruchwyliaeth neu fod ag euogfarn droseddol a allai fod wedi cael ei chyflawni ers i'w dystysgrif droseddol ddilys ddiwethaf o dan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gael ei chyflwyno i GIG Lloegr. Felly, er y gallai GIG Lloegr, er enghraifft, fod wedi cynnwys y Cyflawnydd hwnnw gydag amodau ynghlwm wrtho, pe bai'r un sefyllfa'n digwydd yng Nghymru gyda Chyflawnydd, gallai Cyfarwyddwr Meddygol/Swyddog Cyfrifol BILl fod wedi gwrthod ei gynnwys yn y rhestr cyflawnwyr neu os yw eisoes wedi'i gynnwys, ddileu'r Cyflawnydd o'r Rhestr Cyflawnwyr. Felly pe bai Cyflawnydd Ymarferydd Cyffredinol neu Ymarferydd Deintyddol Cyffredinol yn cael ei restru'n awtomatig ar restr cyflawnwyr PCO, byddai'n tynnu'r broses benderfynu o Gyfarwyddwyr Meddygol/Swyddogion Cyfrifol BILl i wneud penderfyniad am y Cyflawnydd hwnnw ar sail Llywodraethu Clinigol.

Fel y nodwyd yn yr ymateb i'r ymgynghoriad, canfu adroddiad gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (a gyhoeddwyd ar 17 Mai 2018) y gallai cleifion fod wedi cael eu rhoi mewn perygl oherwydd problemau gyda'r ffordd yr oedd Capita'n gweinyddu'r rhestr cyflawnwyr yn Lloegr. Oherwydd oedi wrth brosesu ceisiadau newydd a gwneud newidiadau i gyflawnwyr presennol, gan gynnwys a oedd Ymarferwyr Cyffredinol, deintyddion ac optometryddion sy'n ymarfer yn y GIG yn ddigon cymwysedig ac wedi pasio gwiriadau perthnasol eraill, bu risgiau posibl i ddiogelwch cleifion, yn enwedig mewn achosion lle y dylai cyflawnwyr fod wedi cael eu dileu o restr.

Gallai caniatáu i gyflawnydd sydd wedi'i gofrestru yn Lloegr gael ei restru yn awtomatig yng Nghymru gyfaddawdu diogelwch cleifion felly. Mae hyn yn atgyfnerthu pwysigrwydd ac yn

ategu barn y BLLl bod rhaid inni gadw cydbwysedd yn achos y cyflawnwyr hynny sy'n dymuno cyflawni yng Nghymru.

Rwyf yn gobeithio bod hyn wedi egluro'r sefyllfa.

Yn gywir

Vaughan Gething AC/AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Eitem 2.7

Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/
Prif Weithredwr GIG Cymru
Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Director General Health and Social Services/
NHS Wales Chief Executive
Health and Social Services Group

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dai Lloyd AC
Cadeirydd,
Pwyllgor Iechyd,
Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Ein Cyf: AG/SOT

25 Ebrill 2019

Annwyl Dr Lloyd,

Cynigion ar gyfer y Gronfa Drawsnewid – Nyrsio Cymunedol

Yn dilyn cais y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar 21 Mawrth, rwy'n ysgrifennu i rannu gwybodaeth bellach yn ymwneud â'r elfennau nyrsio cymunedol y cyfeiriwyd atynt yn y cynigion a gymeradwywyd ar gyfer y Gronfa Drawsnewid.

Mae nyrsio cymunedol wedi'i adlewyrchu yn bron bob un o'r cynigion, ond yn bennaf mewn gwasanaethau integredig a themâu cymunedol integredig. Mae'r dyfyniadau a'r prif bwyntiau a ganlyn o'r cynigion yn tynnu sylw at rôl gwasanaethau nyrsio ardal a chymunedol yn fwy penodol:

Caerdydd a'r Fro – Fi, Fy Nghartref, Fy Nghymuned - £6.9m

- Adnabod pobl sydd mewn perygl a'u helpu i barhau i fod mor annibynnol â phosibl – Bydd y prosiect hwn yn cynorthwyo wrth adnabod a rheoli pobl sydd angen cefnogaeth. Bydd gweinyddwr yn cael ei recriwtio a bydd yn gweithio yn un o'r Practisau Clwstwr. Bydd Nyrs Cyswllt Rhyddhau yn cael mynediad i gofnodion clinigol ar y system Vision 360 sy'n cysylltu'r Clwstwr. Bydd gweithiwr cyswllt ym mhob practis yn cydlynu gwaith y nyrs cyswllt rhyddhau gyda'r practisau. Bydd fferyllwyr clwstwr yn hwyluso'r broses o gysoni meddyginiaeth ar ôl rhyddhau'r claf.

- Tîm Amlddisgyblaeth – Bydd meddyg teulu arweiniol yn cael ei recriwtio gyda locwm yn cyflenwi ar gyfer yr amser a neilltuwyd. Bydd tîm amlddisgyblaeth yn cael ei sefydlu gydag iechyd a gofal cymdeithasol yn y gymuned a gofal eilaidd. Cynhelir cyfarfodydd ar rota yn y Practisau Clwstwr. Bydd canlyniadau yn cael eu cofnodi gan ddefnyddio canllawiau TG a nodwyd yn system Vision.

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff CF10 3NQ
Ffôn • Tel 0300 0251182
Andrew.Goodall@gov.wales
Gwefan • website: www.wales.gov.uk

Gwent – Gweithredu system iechyd, gofal a llesiant di-dor - £13.4m

- Timau Cymunedol Integredig: "Bydd y gwasanaeth a gyflwynir yn y cynnig hwn yn wasanaeth integredig, wedi'i ailfodelu - bydd yn wasanaeth amlasiantaethol, wedi'i ddarparu yn ôl ardal awdurdod lleol, bydd yn cynnwys staff gofal cartref hyfforddedig, nyrsys, a geriatregwyr ymgynghorol, wedi'u rheoli drwy un pwynt mynediad a strwythur rheoli sengl. Bydd yn defnyddio'r ddysg allweddol o'r model 'Fy Nghartref, Fy Ngofal' a chyfuno'r gwerth ychwanegol a synergedd a geir drwy weithio gyda phartneriaid awdurdod lleol."

- Cymunedau Caredig (model Burtzorg) ac Un Pwynt Mynediad.

- Gwasanaethau deintyddol i blant dan bump oed gan gynnwys "penodi Ymarferydd Gwella Iechyd y Geg penodedig, Therapydd Cynllun Gwên, a Nyrs Ddeintyddol i ehangu ar lwybr mynediad y plentyn, gan gefnogi plant sydd â mynediad i wasanaethau deintyddol lleol, ac adnabod plant sy'n absennol o'r ysgol gyda'r ddannodd fel blaenoriaeth."

- Ail flaenoriaethu gwaith y Nyrsys Iechyd Ysgol i wella cefnogaeth llesiant emosiynol i blant (a pharhau â thasgau craidd fel imiwneiddio)

Gogledd Cymru

Law yn Llaw at Iechyd Meddwl - £2.2m
Gwasanaethau Di-dor i Bobl ag Anableddau Dysgu - £1.6m
Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol - £6m
Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd - £3m

- Timau Adnoddau Cymunedol: llywio, cydlynu, gofal a chymorth wedi'i reoli, ymateb mewn argyfwng

- Timau integredig fel rhan o sefydlu model clwstwr cwbl integredig, yn seiliedig ar y model Cymunedau Caredig

- Cydweithio gyda chlinigwyr Gofal yr Henoed arbenigol i alluogi gwell cymorth ar gyfer pobl hŷn yn y cymunedau (gartref neu mewn cartref gofal)

Gorllewin Cymru – Gorllewin Cymru Iachach - £11.9m

- Bydd y Tîm Cymunedol Amlddisgyblaethol Mynediad Cyflym yn integreiddio llwybrau gofal gan weithwyr proffesiynol presennol a newydd sy'n darparu capasiti i edrych ar ôl llawer mwy o gleifion yn yr ardal leol, osgoi derbyniadau i'r ysbyty a hwyluso rhyddhau o'r ysbyty yn gynnar. Bydd ymweliadau cartref gan feddygon teulu yn cael eu lleihau drwy gyflogi ymarferwyr uwch fel rhan o'r tîm hwn. Yna, byddant yn gallu defnyddio eu sgiliau yn fwy priodol i reoli cleifion gyda phroblemau iechyd cymhleth yn y gymuned.

- Bydd y gwasanaeth hwn yn ad-drefnu a gwella gwasanaethau presennol a bydd yn cysylltu yn naturiol â'r tîm adnoddau cymunedol a phractisau meddygon teulu. Bydd yn hyblyg, yn barod i newid ac yn ymatebol, yn seiliedig ar ofal hydredol GMS. Y nod yw rhyddhau meddygon teulu o ddarparu gofal heb ei drefnu y gall fod wedi'i ddarparu gan eraill (uwch ymarferwyr, fferyllwyr ayyb.). Bydd hyn yn caniatáu amser i ddatblygu'r gwaith amlddisgyblaethol sydd ei angen i alluogi gofalu am achosion mwy cymhleth yn llwyddiannus yn y gymuned.

- Gan ddibynnu ar y model lleol mewn ardal benodol, gellir defnyddio'r gwasanaeth hefyd i gynnwys y Gwasanaeth Meddyg yn Gyntaf/Brysbennu/Atgyfeirio i gydlynu'r llwyth gwaith i weithwyr proffesiynol ac asiantaethau perthnasol i reoli sawl cais am ofal heb ei gynllunio mewn gofal sylfaenol, atgyfeirio at y gweithiwr proffesiynol mwyaf priodol, a chyfrannu at gynaladwyedd Ymarfer Cyffredinol yn yr ardal leol. Gallwn hefyd gynnig ymgyngoriadau skype ac apwyntiadau wyneb yn wyneb gydag amryw o weithwyr gofal iechyd proffesiynol a fydd yn caniatáu brysbennu cleifion o'r adran argyfyngau i ofal sylfaenol ac felly yn lleihau'r pwysau ar ofal heb ei gynllunio.

- “Bydd y llwybr yn agwedd gwbl integredig gyda mynediad i'r Tîm Ymateb Acíwt meddygol a gofal cartref ymateb cyflym yn ogystal â chymorth ac asesiad gan weithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol gan gynnwys nyrsio cymunedol, ffisiotherapi, therapi galwedigaethol a gwaith cymdeithasol."

Bae’r Gorllewin

Dull Gweithredu System Gyfan, Clwstwr Cwmtawe - £1.7m
Dull Gweithredu System Gyfan, cyflwyno 7 clwstwr - £8.8m
Ymagwedd Ein Cymdogaeth - £5.9m

- Set gydlynol o gynigion yn seiliedig ar 'Yr Hyn sy'n Bwysig i Mi' ac yn ceisio cydlynu a chysylltu gwasanaethau cymunedol, gan gynnwys gwasanaethau gofal canolraddol, ac arweiniad clwstwr cryf; mae hyn yn golygu y bydd nyrsys practis yn cael eu cynnwys mewn modd integrol.

Hyderaf y bydd fy ymateb yn rhoi cipolwg i chi ac aelodau’r Pwyllgor ar drawsnewidiad meddygaeth yn y gymuned.

Yn gywir

Dr Andrew Goodall CBE

Eitem 2.8

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

ATHROFA LLYTHRENNEDD CORFFOROL CYMRU
WALES INSTITUTE FOR PHYSICAL LITERACY

29/4/19

Dear Dr Lloyd and members of the committee,

I would like to take this opportunity to formally respond to the Physical Activity of Children and Young People report on behalf of the Wales Institute for Physical Literacy at The University of Wales Trinity Saint David (UWTSD).

I am delighted that the Committee have recognised the important role that early childhood plays in the development of physical literacy, and as such physical activity throughout the life-course. The early years is a unique window of opportunity when young children are excited by movement and are still highly motivated to be active and engage in vigorous and imaginative play. The recent First Minister's Manifesto (2018) identifies the need for a healthier Wales with a 'focus on preventing and intervening earlier'(p18). To capitalise on this window of opportunity in early childhood requires skilled staff with an understanding of motor development. SKIP-Cymru is a programme of professional development that enables Early Years staff to teach children the motor competence and confidence for later physical activity. These early foundations are crucial 'to support longer healthier happier lives promoting physical and mental well-being and resilience among young people' (First Minister's Manifesto, p 19)

As also highlighted in the First Minister's Manifesto 'Wales has led the world in early years education' (p24). If the SKIP-Cymru programme is rolled out nationally, as per recommendation 5 of the report, then Wales once again will be leading the world in addressing what is a global issue in relation to declining levels of motor competence and in particular addressing issues associated with deprivation. We know that children in areas of socio economic deprivation are more likely to be delayed in their motor development and as such at greater risk of a spiral of disengagement in physical activity and a negative health trajectory. This deprivation gap is highlighted in the recommendations, and is also highlighted in the manifesto stating that 'we can and must alleviate the worst effects of poverty in children's lives' (p 26).

I am pleased to see recommendation 1 identifying the need for a national measurement framework, but would suggest that this needs to also include motor competence in early childhood. Motor competence in early childhood is strongly associated with later physical activity. There is currently no data for children's motor competence in Wales (or the wider UK) other than a small sample from ongoing post graduate studies which are showing 100% of pupils in areas of deprivation having extreme developmental delays in their motor skills.

SKIP-Cymru includes aspects of working with parents and families and as such also contributes to the need to focus on family orientated approaches highlighted in recommendation 3 and builds a strong school and community ethos for valuing movement and physical activity, supporting recommendation 11.

We know from evaluations of the pilots of this work that children make significant improvements in their motor skills, but more than that staff and parents have reported increased levels of confidence, increased physical activity in school and at home and higher engagement in learning.

We would welcome the opportunity to further discuss a phased roll out of SKIP-Cymru across Wales and the revised costings for this work. The 2018 manifesto highlights the need to 're-engineer existing funding programmes to have maximum impact' in relation to child poverty. A targeted approach with an initial focus on areas of deprivation could both generate data about levels of motor competence and impact on pupil motor competence. Money from the soft drinks industry levy could be used to support this work as per recommendation 20.

I would like to congratulate to the committee on such a comprehensive and challenging review of the situation regarding children and young people's physical activity at a time when we are facing such a threat to our children's health.

Kind regards

Dr Nalda Wainwright BA Ed (Hons), MA, PhD, FHEA
Director: Wales Institute for Physical Literacy, UWTSD

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon